Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Ystadegau Medr

## Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyflawniad, Awst 2024 - Gorffennaf 2025

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod yr ystadegau:** | Sta/Medr/05/2026 |
| **Dyddiad:** | 10 Mawrth 2026 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | ystadegau@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | **Deilliannau ar gyfer addysg gyffredinol, addysg alwedigaethol a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch mewn lleoliadau chweched dosbarth a cholegau.** |
| **Thema:** | Addysg uwch, chweched dosbarth |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), Casgliad data ôl-16, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys

Nodyn ..... 2

Prif bwyntiau ..... 3

Addysg gyffredinol (Safon Uwch) ..... 5

Rhaglenni galwedigaethol ..... 9

Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch ..... 14

Cyfrifon Dysgu Personol ..... 16

Rhywedd / rhyw ..... 18

Oedran ..... 21

Amddifadedd ..... 22

Cefndir ethnig ..... 24

Rhestr Termau ..... 27

Nodiadau ..... 30

Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg ..... 31

Ystadegau cysylltiedig ..... 33

Diweddariad nesaf ..... 33

Gwybodaeth gyswllt ..... 33

## Nodyn

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu deilliannau ar gyfer addysg gyffredinol ac addysg alwedigaethol mewn lleoliadau chweched dosbarth a cholegau. Mae'n bwrw golwg ar ddilyniant ar draws yr holl gymwysterau a gymerodd dysgwr fel rhan o'u rhaglen, yn ogystal â'r graddau a enillwyd.

Mae ystadegau ar brentisiaid a dysgu oedolion yn y gymuned yn yr adroddiad [Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned].

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai o'r negeseuon yn y data. Mae'r tablau sy'n cyd-fynd ag ef yn cynnwys y dadansoddiadau llawn ar gyfer yr holl fesurau yn ôl yr holl nodweddion yn yr erthygl hon, a hefyd yn ôl math o ddarparwr, awdurdod lleol, namau (ar gyfer colegau) a pha un a gafodd dysgwyr ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol uwchradd.

### Cynnwys mathau o raglenni dysgu ychwanegol

Mae deilliannau ar gyfer cyrsiau a wnaed fel rhan o raglenni Cyfrif Dysgu Personol (PLA) wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn am y tro cyntaf eleni, fel a nodir ym [manyleb y rhaglen].


Mae deilliannau ar gyfer rhaglenni dysgu galwedigaethol lefel 4 amser llawn wedi'u cynnwys am y tro cyntaf hefyd gan bod carfannau sydd o ddigon o faint ar gyfer adrodd yn bodoli bellach.

# Prif bwyntiau

## Trosolwg

**Mae deilliannau ar gyfer addysg uwch yr un fath fwy neu lai â ffigyrau 2023/24, tra bo deilliannau galwedigaethol wedi cynyddu**

Ffigur 1.1: Crynodeb o fesurau cyflawniad yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng mis Awst 2023 a mis Gorffennaf 2025




Disgrifiad: Fe gwblhaodd 76% o ddysgwyr Safon Uwch eu rhaglen ddwy flynedd ym [mlwyddyn academaidd](#) 2024/25. Fe gwblhaodd 90% o ddysgwyr galwedigaethol eu rhaglen. Fe wnaeth 70% o ddysgwyr Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch gwblhau'r cymhwyster.

[Nodyn 1] Cymhwyster dwy flynedd yw Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch a gyflwynwyd ym mis Medi 2023 ac a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn haf 2025. Dim ond ar gyfer 2024/25 y mae deilliannau ar gael.

## Addysg gyffredinol (Safon Uwch)

- Mae’r graddau a enillwyd yn dal i fod yn uwch na lefelau cyn y pandemig, ond bu lleihad yng nghyfran y dysgwyr a enillodd o leiaf dair A o’i gymharu â 2023/24.
- Bu lleihad bychan yn y gyfran a gwblhaodd Uwch Gyfrannol a Safon Uwch a chynnydd bach yng nghyfran y dysgwyr a aeth ymlaen i’w hail flwyddyn Safon uwch yn 2024/25.
- Roedd gan ddysgwyr benywaidd ddeilliannau gwell na dysgwyr gwrywaidd mewn rhaglenni addysg gyffredinol, heblaw am ddysgwyr a enillodd dair A*.
- Aeth 52% o’r dysgwyr benywaidd a wnaeth UG ymlaen i ennill o leiaf tair C mewn Safon Uwch, o’i gymharu â 40% o ddysgwyr gwrywaidd.
- Aeth 48% o ddysgwyr UG 16 oed ymlaen i ennill o leiaf tair C mewn Safon Uwch, o’i gymharu â 24% o ddysgwyr hŷn.
- Roedd dysgwyr o gefndiroedd amddifadus yn llai tebygol o gwblhau eu Safon Uwch ac yn llai tebygol o gael graddau uchel os oeddent yn gwneud.
- Roedd dysgwyr o Grwpiau Ethnig Eraill yn fwy tebygol o ennill o leiaf dri chymhwyster Safon Uwch yn 2024/25. Grwpiau Ethnig Lluosog, Cymysg oedd yr unig grŵp ethnig lle gwelwyd cynnydd yn y gyfran a enillodd o leiaf dri chymhwyster Safon Uwch o’i gymharu â 2023/24.

## Addysg alwedigaethol

- Fe wellodd deilliannau galwedigaethol ar bob lefel rhaglen yn 2024/25, ac eithrio ar gyfer Lefel Mynediad sydd wedi gostwng.
- Mae’r deilliannau galwedigaethol ar Lefelau 1 i 3 bellach yr un fath â’r ffigyrau cyn y pandemig neu’n uwch na hwy.
- Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer cyrsiau a wnaed fel rhan o raglenni Cyfrif Dysgu Personol yn amrywio yn ôl maes sector pwnc, o 97% mewn Manwerthu a Menter Fasnachol i 47% mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.
- Bu cynnydd bach mewn dysgwyr na wnaethant gwblhau eu rhaglen oherwydd eu bod ‘Wedi mynd i gyflogaeth’ ac oherwydd ‘Rhesymau ariannol’ yn 2024/25.
- Roedd gan ddysgwyr galwedigaethol a oedd yn gysylltiedig â phrofiadau o amddifadedd ddeilliannau is na’r rhai nad oeddent yn gysylltiedig â’r profiadau hynny, ond roedd y berthynas yn llai cryf nag mewn addysg gyffredinol.

## Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch

- Cyflawnodd dysgwyr a astudiodd raglenni addysg gyffredinol ddeilliannau uwch ym Magloriaeth Sgiliau Cymru Uwch na dysgwyr a astudiodd raglenni galwedigaethol.

# Addysg gyffredinol (Safon Uwch)

Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu dysgwyr amser llawn a ddechreuodd astudio rhaglen o 3 Safon UG neu fwy (neu'r hyn sy'n gyfwerth â hynny) yn eu blwyddyn gyntaf, a faint aeth ymlaen i ennill o leiaf 3 Safon Uwch (neu'r hyn sy'n gyfwerth â hynny) erbyn diwedd eu hail flwyddyn.

Cafodd arholiadau eu canslo yn haf 2019/20, a 2020/21 oherwydd pandemig y Coronafeirws (COVID-19). Yn 2019/20 cafodd dysgwyr Safon Uwch y gorau o raddau a aseswyd gan y ganolfan neu raddau safonedig. Yn 2020/21, cawsant raddau a bennwyd gan y ganolfan. Yn y ddwy flynedd honno, roedd deilliannau'r graddau'n tueddu i fod yn uwch na chyn y pandemig.

Roedd 2021/22 yn flwyddyn drosiannol i ddysgwyr. Rhoddwyd dewis ehangach o gwestiynau i ddysgwyr, ac fe bennodd Cymwysterau Cymru bolisi y dylai'r canlyniadau fod hanner ffordd fwy neu lai rhwng 2018/19 a 2020/21.

Fe arhosodd peth cymorth yn ei le ar gyfer dysgwyr a safodd arholiadau yn 2022/23. Roedd y cymorth hwn ar ffurf gwybodaeth rhag blaen a dull graddio cefnogol. Fe bennodd Cymwysterau Cymru bolisi y dylai'r canlyniadau ar lefel genedlaethol fod hanner ffordd fwy neu lai rhwng deilliannau 2018/19 a 2021/22.


Ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24, fe bennodd Cymwysterau Cymru bolisi, ar lefel pynciau, a fyddai wedi atal canlyniadau rhag bod ymhell islaw lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, nid oedd angen rhoi'r polisi hwnnw ar waith yn ymarferol. Caiff hyn ei egluro mewn rhagor o fanylder yn yr adroddiad Myfyrdodau ar safonau perfformiad yn y daith yn ôl i drefniadau cyn y pandemig a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.

Yn 2024/25 fe gafwyd gwared ar y trefniadau diogelu ystadegol gan nodi dychweliad llawn at ddulliau dyfarnu cyn y pandemig.

Dylai'r cyd-destun hwn o ran sut yr effeithiwyd ar arholiadau ac asesiadau gan y pandemig, a threfniadau a sefydlwyd mewn blynyddoedd dilynol, gael ei gadw mewn cof wrth gymharu deilliannau dros amser.

**Mae deilliannau ar gyfer Safon Uwch yn dal i fod yn uwch na chyn y pandemig**

Ffigur 2.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng 2017/18 a 2024/25




Disgrifiad: Mae cyfran y dysgwyr a gwblhaodd eu cymwysterau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch wedi cynyddu yn 2024/25, tra bo'r cyfrannau sy'n mynd ymlaen i'r ail flwyddyn wedi lleihau.

[Nodyn 1] Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21.


Data yn Nhabl 1.1 yn y llyfr gwaith sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Mae'r newid mewn graddau a enillwyd gan ddysgwyr wedi amrywio yn 2024/25. Fe enillodd 69% o ddysgwyr o leiaf dair E, sy'n ddigyfnewid o'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth cyfran y dysgwyr a enillodd o leiaf dair C gynyddu i 47% o 46% yn y flwyddyn flaenorol, tra bo cyfran y dysgwyr a enillodd o leiaf dair A wedi lleihau i 11% o 12%. Mae'r graddau a enillwyd yn dal i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

**O’r myfyrwyr Uwch Gyfrannol a oedd yn astudio ar ôl 8 wythnos, ni wnaeth 6% gwblhau eu cymwysterau Uwch Atodol ac fe wnaeth 16% eu cwblhau ond a hwythau heb fynd ymlaen wedyn i’r ail flwyddyn**

Ffigur 2.2: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer rhaglenni addysg gyffredinol (Safon Uwch)

Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran y dysgwyr UG ar ôl 8 wythnos





Disgrifiad: Mae'r diagram llif yn dangos taith y dysgwyr ar gyfer dysgwyr Safon Uwch llawn amser, a oedd yn cychwyn yn 2023/24 ac yn cwblhau eu cymwysterau Safon Uwch yn 2024/25.

Data yn Nhabl 1.2 yn y daenlen sy’n cyd-fynd â’r adroddiad

**Roedd pynciau STEM yn tueddu i fod â chyfran uwch o ddysgwyr Safon Uwch a enillodd o leiaf A**

Ffigur 2.3: Deilliannau cyrsiau Safon Uwch ar gyfer y 15 Safon Uwch a gymerwyd fwyaf yn ôl statws Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Ymhlith y 15 cymhwyster Safon Uwch a wnaed fwyaf, roedd y 5 â'r gyfran uchaf o ddysgwyr yn ennill A neu A* mewn Safon Uwch yn bynciau STEM yn bennaf, gyda Chelf a Dylunio'n eithriad i hynny gan roi cyfrif am yr ail gyfran fwyaf.

[Nodyn 1] Defnyddiwyd y diffiniad eang o STEM yma, sef y meysydd pwnc sector canlynol: 2: Gwyddoniaeth a Mathemateg, 4: Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu, 5: Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, 1.1: Meddygaeth a deintyddiaeth, 2.2: Nyrsio a phynciau a galwedigaethau perthynol i feddygaeth, 6.2: Ymarferwyr TGCh, ac 11.1: Daearyddiaeth.

Data yn Nhabl 4.1 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Fe aeth bron i 4 ymhob 10 dysgwr a ddechreuodd ail flwyddyn eu Safon Uwch Mathemateg ymlaen i gael A neu A*. Fe enillodd bron i 2 ymhob 10 dysgwr Busnes ac Addysg Gorfforol A neu A*, ac fe enillodd llai byth o ddysgwyr y graddau hynny yn Astudiaethau'r Cyfryngau.

Fe wnaeth dros 8 ymhob 10 dysgwr a gwblhaodd Hanes Uwch Gyfrannol barhau i wneud Safon Uwch Hanes yn eu hail flwyddyn, sy'n debyg i Lenyddiaeth Saesneg. Roedd gan y pynciau hyn, ynghyd â Chelf a Dylunio ac Astudiaethau'r Cyfryngau, ganran uchel o ddysgwyr a enillodd o leiaf C.

Gall pynciau gwahanol ddenu mathau gwahanol o ddysgwyr, er enghraifft o gefndiroedd gwahanol neu â lefelau gwahanol o gyflawniad blaenorol.

## Rhaglenni galwedigaethol

Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu dysgwyr amser llawn a astudiodd raglenni â chymwysterau galwedigaethol yn bennaf, mewn sector neu faes pwnc penodol. Nid ydynt yn cynnwys prentisiaethau.

Mae gan gymwysterau galwedigaethol wahanol hydoedd, felly mae'r mesurau galwedigaethol yn bwrw golwg ar gyflawniad dros un flwyddyn yn unig. Caiff llwyddiant ar gyfer rhaglenni galwedigaethol ei fesur fel canran y prif gymwysterau a astudiwyd a oedd yn llwyddiannus.

Yn 2019/20 a 2020/21, cafodd rhai asesiadau eu canslo a'u disodli â dewisiadau amgen megis graddau a aseswyd gan athrawon, cafodd eraill eu haddasu, ac fe ohiriwyd rhai. Roedd deilliannau yn y blynyddoedd hyn yn is fel rheol, ac eithrio ar gyfer rhaglenni lefel 3 (sy'n gyfwerth â Safon Uwch).

Yn 2021/22 fe aeth asesiadau yn eu blaenau, ond roedd cyrff dyfarnu'n gallu gwneud addasiadau i arholiadau ac asesiadau, i helpu i liniaru effeithiau'r tarfu ar ddysgu o ganlyniad i'r pandemig. Roedd deilliannau ar gyfer yr holl raglenni, gan gynnwys rhaglenni lefel 3, yn is na lefelau cyn y pandemig.


Yn 2022/23, roedd disgwyl i gymwysterau galwedigaethol a oedd yn benodol i Gymru ystyried y dull a ddefnyddiwyd gyda TGAU a Safon Uwch. Fodd bynnag fe wnaeth Ofqual, yn Lloegr, gefnogi dychweliad at asesiadau 2018/19, a effeithiodd ar ddysgwyr yng Nghymru a oedd yn gwneud cymwysterau galwedigaethol a oedd ar gael yng Nghymru a Lloegr.

Yn 2023/24 fe welwyd dychweliad at drefniadau cyn y pandemig. Fel a ddisgrifiwyd yn yr adran o'r adroddiad hwn sy'n ymwneud ag addysg gyffredinol, fe bennodd Cymwysterau Cymru bolisi a fyddai, ar lefel pynciau, wedi atal canlyniadau rhag bod ymhell islaw lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, nid oedd angen rhoi'r polisi hwnnw ar waith yn ymarferol. Caiff hyn ei egluro mewn rhagor o fanylder yn yr adroddiad Myfyrdodau ar safonau perfformiad yn y daith yn ôl i drefniadau cyn y pandemig a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.

Yn sgîl hynny, ar gyfer cymwysterau sy'n benodol i Gymru, roedd 2024/25 yn nodi dychweliad llwyr i ddulliau dyfarnu cyn y pandemig. Yn gyffredinol, roedd y dychweliad at drefniadau a safonau cyn y pandemig ar gyfer y cymwysterau hyn yn gyflymach nag ar gyfer addysg gyffredinol.

**Mae cyfraddau cwblhau a llwyddo ar lefel mynediad wedi gostwng yn 2024/25**

Ffigur 3.1: Cyfraddau cwblhau a llwyddiant ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn ôl lefel y rhaglen a blwyddyn academaidd, rhwng 2018/19 a 2024/25




Disgrifiad: Fe gododd cyfraddau cwblhau a llwyddo ar draws holl lefelau'r rhaglenni galwedigaethol yn 2024/25, ac eithrio ar gyfer lefel mynediad sydd wedi gostwng.

[Nodyn 1] Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21.
[Nodyn 2] O 2024/25, mae rhaglenni galwedigaethol lefel 4 wedi cael eu cynnwys yn y mesurau.

Data yn Nhabl 2.1 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Mae'r cyfraddau cwblhau a llwyddo cynyddol yn barhad o ran y duedd a welwyd ers 2021/22 ar lefelau 1 i 3, ac ers 2022/23 ar gyfer rhaglenni Mynediad at Addysg Uwch. Ar lefelau 1 i 3, mae'r deilliannau galwedigaethol bellach yr un fath â'r ffigyrau cyn y pandemig neu'n uwch na hwy.

Mae deilliannau lefel mynediad yn 2024/25 wedi gostwng, gyda chyfraddau cwblhau a llwyddo'n cwympo ddau bwynt canran a chwe phwynt canran yn y drefn honno, o'i

gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Rhaglenni Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ar lefel mynediad 1 i lefel mynediad 3, neu Ddysgu Sylfaen ar lefel mynediad 3, yw'r rhan fwyaf o'r rhaglenni lefel mynediad. Bu gostyngiad yng nghyfraddau cwblhau a llwyddiant pob un o'r rhaglenni hyn rhwng 2023/24 a 2024/25.

Yn 2024/25, bu cynnydd yn nifer y dysgwyr a oedd wedi’u cofrestru ar ôl 8 wythnos ar bob lefel, gyda lefel 1 a 2 yn dangos y cynnydd mwyaf o naw pwynt canran ag undeg pedwar pwynt canran ar ddeg yn y drefn honno, o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

Roedd y gyfradd lwyddo a’r gyfradd gwblhau ar gyfer lefel 4 yn 88% a 92% yn y drefn honno yn 2024/25.

Ar gyfer rhaglenni Mynediad at Addysg Uwch fe welwyd cynnydd mewn cyfraddau cwblhau a llwyddo o’i gymharu â 2023/24, yn dilyn gostyngiad yn 2022/23. Mae rhaglenni Mynediad at Addysg Uwch wedi’u bwriadu i baratoi pobl heb gymwysterau traddodiadol i astudio yn y brifysgol.


Yn debyg i’r 3 flynedd ddiwethaf, roedd oddeutu 7 ymhob 10 o’r dechreuwyr mewn rhaglenni Mynediad at Addysg Uwch mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal.

O’i gymharu â 2023/24, fe brofodd yr holl feysydd pwnc sector (SSA) gynnydd mewn cyfraddau cwblhau a llwyddo neu fe arhoson nhw yr un fath. Fodd bynnag, yn y maes pwnc sector Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith, fe wnaeth y gyfradd lwyddo ar gyfer Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ostwng bum pwynt canran.

**Mae cyfran y dysgwyr sy’n cwblhau eu rhaglen alwedigaethol wedi cynyddu dri phwynt canran o’i gymharu â 2023/24**

Ffigur 3.2: Mesurau cwblhau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, blwyddyn academaidd 2024/25

Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran y dysgwyr galwedigaethol ar ôl 8 wythnos





Disgrifiad: Mae'r siart llif yn dangos cynnydd dysgwyr galwedigaethol drwy eu rhaglen. Fe adawodd 1 ymhob 13 dysgwr eu rhaglen alwedigaethol o fewn eu 8 wythnos gyntaf, sydd i lawr o 1 ymhob 11 y llynedd.

Data yn Nhabl 2.1 yn y daenlen sy’n cyd-fynd â’r adroddiad

### Mae cyfradd lwyddo'r prif gymwysterau a wnaed gan ddysgwyr mewn rhaglenni galwedigaethol wedi cynyddu yn 2024/25

Ffigur 3.3: Cyfradd llwyddo'r prif gymwysterau a gymerwyd gan ddysgwyr mewn rhaglenni galwedigaethol, blwyddyn academaidd 2024/25





Disgrifiad: Cafodd 83% o'r prif gymwysterau a gymerwyd fel rhan o raglenni galwedigaethol amser llawn eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae hyn 3 bwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Data yn Nhabl 2.1 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

### Mae'r rhesymau pam y gwnaeth rhaglenni orffen heb gwblhau yr un fath fwy neu lai ag yn 2023/24

Ffigur 3.4: Rheswm dros roi'r gorau i raglenni galwedigaethol nas cwblhawyd mewn colegau yn ôl blwyddyn academaidd, rhwng 2023/24 a 2024/25




Disgrifiad: Mae 'Wedi mynd i gyflogaeth' a 'Rhesymau ariannol' wedi codi o ran cyfran fel rheswm dros beidio â chwblhau, y naill a'r llall o un pwynt canran o'i gymharu â 2023/24.

Data yn Nhabl 2.15 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Yn 2024/25, mae ‘Rhesymau personol’ ac ‘Arall’ wedi lleihau o ran cyfran fel rheswm dros beidio â chwblhau, gyda’r naill a’r llall yn lleihau un pwynt canran o’i gymharu â 2023/24. Mae’r gyfran ar gyfer ‘Iechyd’, ‘Methu’, ‘Trosglwyddo’ a ‘Gwaharddiad/ gadael dan gwmwl’ wedi aros yr un fath ag yn 2023/24, fel rheswm dros beidio â chwblhau.

Fel y llynedd, y rhesymau mwyaf a gofnodwyd dros beidio â chwblhau oedd ‘Rhesymau personol’, ‘Wedi camu i gyflogaeth’ ac ‘Arall’.

## Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch


Cymhwyster ar gyfer Cymru yn unig, a gyflwynwyd ym mis Medi 2023 ac a ddyfarnwyd am y tro cyntaf yn haf 2025, yw Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Cymhwyster sy'n bodoli ar wahân ydyw, y gellir ei wneud ochr yn ochr â chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill, ac mae wedi'i fwriadu i ddatblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol ar gyfer addysg a chyflogaeth.

Mae'r cymhwyster newydd wedi disodli Bagloriaeth Cymru Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a arferai fodoli, gyda'r cymwysterau hynny'n cael eu dyfarnu am y tro olaf yn haf 2024. Mae dadansoddiad a deilliannau mewn perthynas â chymhwyster blaenorol Bagloriaeth Cymru Uwch ar gael mewn rhifynnau blaenorol o'r datganiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gymhwyster dwy flynedd lefel 3 Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Ceir y fanyleb a'r canllawiau yn llawn ar wefan CBAC.

**Fe wnaeth 70% o ddysgwyr gwblhau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn 2024/25**

Ffigur 4.1: Mesurau cyflawniad Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, blwyddyn academaidd 2024/25





Disgrifiad: O blith y 16,975 o ddysgwyr Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch a oedd wedi'u cofrestru ar ôl 8 wythnos, enillodd 61% o'r dysgwyr raddau A* i E, ac enillodd 48% o'r dysgwyr raddau A* i C.

Data yn Nhabl 3.1 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

**Cyflawnodd dysgwyr a astudiodd raglenni addysg gyffredinol ddeilliannau uwch yng nghymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch na dysgwyr a astudiodd raglenni galwedigaethol**

Ffigur 4.2: Mesurau cyflawniad yn ôl math o raglen y dysgwr ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Yn 2024/25, roedd cyfradd gwblhau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch ar gyfer dysgwyr galwedigaethol yn 62%, o'i gymharu â 72% ar gyfer dysgwyr addysg gyffredinol. O blith y dysgwyr Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, roedd 14,090 o ddysgwyr wedi'u cofrestru mewn addysg gyffredinol ac roedd 2,800 o ddysgwyr wedi'u cofrestru mewn addysg alwedigaethol ar ôl 8 wythnos.

[Nodyn 1] Nid yw rhai categorïau sy'n seiliedig ar niferoedd isel wedi cael eu cynnwys i osgoi datgelu pwy ydynt.

Data yn Nhabl 3.1 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Mae'r bwlch mewn deilliannau ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch rhwng dysgwyr addysg gyffredinol a dysgwyr galwedigaethol ar ei fwyaf ar 31 pwynt canran ar gyfer dysgwyr a enillodd A* i B.


## Cyfrifon Dysgu Personol

Mae'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (PLA) yn amcanu at helpu unigolion i uwchsgilio neu ailsgilio mewn sectorau sy'n flaenoriaeth, yn enwedig y rhai y mae eu henillion islaw'r ffigwr blynyddol gros canolrifol ar gyfer oedolion amser llawn sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae deilliannau y cyrsiau yma wedi eu cynnwys yn y mesurau yma am y tro cyntaf. Mae 5,855 o gyrsiau lle roedd y dysgwr yn dal wedi'i gofrestru ar ôl 8 wythnos wedi'u cynnwys yn y mesurau hyn ar gyfer 2024/25.

**Roedd gan gyrsiau mewn rhaglenni Cyfrif Dysgu Personol lefel 3 y gyfradd lwyddo uchaf yn 2024/25**

Ffigur 5.1: Cyfraddau cwblhau a llwyddo ar gyfer cyrsiau a wnaed fel rhan o raglenni Cyfrif Dysgu Personol yn ôl lefel, blwyddyn academaidd 2024/25





Disgrifiad: Cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol lefel 4 oedd a'r cyfraddau llwyddo isaf yn 2024/25, o 62%. Mae hwn yn fwlch o 29 pwynt canran o'i gymharu â'r gyfradd lwyddo uchaf ar gyfer Lefel 3, sef 91%.

Data yn Nhabl 5.4 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

**Cyrsiau Manwerthu a Menter Fasnachol oedd â'r gyfradd lwyddo uchaf mewn rhaglenni Cyfrif Dysgu Personol yn 2024/25**

Ffigur 5.2: Cyfraddau cwblhau a llwyddo ar gyfer cyrsiau a wnaed fel rhan o raglenni Cyfrif Dysgu Personol yn ôl Maes Pwnc Sector (SSA), blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Er bod gan Faes Pwnc Sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gyfradd gwblhau uchel, sef 97%, fe ostyngodd y gyfradd lwyddo 50 pwynt canran i 47% yn 2024/25. Hon oedd y gyfradd lwyddo isaf ar draws pob Maes Pwnc Sector.

Data yn Nhabl 5.4 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

## Rhywedd / rhyw

Nid yw data ar rywedd a rhyw'n cael ei gasglu'n gyson ar draws y ffynonellau data a ddefnyddir ar gyfer y datganiad hwn.

Mae Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, sy'n casglu data gan golegau, yn cofnodi rhywedd y dysgwr. Mae'r dysgwr yn dynodi'r rhywedd y dylid ei gofnodi ac mae ganddynt yr opsiwn i gofnodi nad ydynt yn uniaethu â hunaniaeth rhywedd ddeuaidd, sef gwryw neu fenyw.

Mae'r Casgliad Data Ôl-16, sy'n casglu data gan unedau chweched dosbarth, yn cofnodi rhyw'r dysgwr fel y'i cydnabyddir yn gyfreithiol. Roedd yr eitem ddata hon yn cael ei chasglu fel 'rhywedd' cyn 2023/24 ond gyda'r un categorïau deuaidd, sef gwryw a benyw, ac efallai fod hunaniaeth rhywedd nifer fach o ddisgyblion wedi cael ei chofnodi. Dyroddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ochr yn ochr â'r newid i enw'r newidyn yn 2023/24.


Caiff y ddwy ffynhonnell ddata hyn eu cyfuno yn y dadansoddiad hwn i ddarparu darlun llawn o ddeilliannau addysg gyffredinol, addysg alwedigaethol a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch rhwng dysgwyr benywaidd a gwrywaidd. Dylai defnyddwyr nodi'r gwahaniaethau yn y newidynnau a gasglwyd wrth ddehongli'r dadansoddiad.

Yn 2024/25, mae carfan y dysgwyr sy'n astudio ar ôl 8 wythnos mewn addysg gyffredinol yn cynnwys 32% mewn colegau, lle y cofnodir 'rhywedd', ac mae'r 68% sy'n weddill o'r garfan mewn dosbarthiadau chwech, lle y cofnodir 'rhyw'. O ran dysgwyr galwedigaethol, darpariaeth mewn colegau a gaiff y garfan alwedigaethol i gyd bron, gan fod llai nag 1% o'r rhaglenni galwedigaethol yn cael eu hastudio mewn dosbarthiadau chwech. O blith dysgwyr Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, mae 44% yn mynychu colegau, ac mae 56% wedi'u cofrestru mewn dosbarthiadau chwech.

O'r garfan addysg gyffredinol, llai na 0.5% oedd o ddysgwyr nad ydynt yn uniaethu â hunaniaeth rhywedd ddeuaidd, sef gwryw neu fenyw. Mewn addysg galwedigaethol a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, roeddent yn 1% o'r garfan.

**Ar y cyfan, mae dysgwyr benywaidd wedi perfformio'n well na dysgwyr gwrywaidd mewn mesurau cyflawniad**

Ffigur 6.1: Mesurau cyflawniad yn ôl rhywedd/rhyw, blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Roedd gan ddysgwyr benywaidd ddeilliannau uwch na dysgwyr gwrywaidd mewn rhaglenni addysg gyffredinol, ac eithrio canran y dysgwyr a enillodd 3 A*. Roedd gan ddysgwyr benywaidd ddeilliannau uwch hefyd ym Magloriaeth Sgiliau Cymru Uwch na dysgwyr gwrywaidd ar gyfer cyfraddau cwblhau a llwyddo.

[Nodyn 1] Nid yw rhai categorïau sy'n seiliedig ar niferoedd isel wedi cael eu cynnwys i osgoi datgelu pwy ydynt.
[Nodyn 2] Mae'r categori 'Dysgwyr nad ydynt yn uniaethu â hunaniaeth rhywedd ddeuaidd, sef gwryw neu fenyw' yn berthnasol ar gyfer dysgwyr mewn colegau yn unig.
[Nodyn 3] Fe gyflwynwyd Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch ym mis Medi 2023 ac fe'i dyfarnwyd am y tro cyntaf yn haf 2025.

Data yn Nhabl 1.2, 2.2, 3.2 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Fe aeth 78% o ddysgwyr benywaidd a oedd wedi bod yn gwneud eu cymwysterau Uwch Gyfrannol am 8 wythnos ymlaen i gwblhau eu cymwysterau Safon Uwch, o'i gymharu â 75% o ddysgwyr gwrywaidd. O'i gymharu â dysgwyr gwrywaidd, roedd dysgwyr benywaidd yn fwy tebygol o barhau i mewn i'w hail flwyddyn, gan arwain at gyfradd gwblhau uwch ar y cyfan.

Fe aeth 52% o ddysgwyr UG benywaidd ymlaen i ennill 3 C ar lefel Safon Uwch, o'i gymharu â 40% o ddysgwyr gwrywaidd.


O'i gymharu â 2023/24, fe gynyddodd y bwlch benywaidd/gwrywaidd ar gyfer addysg gyffredinol o ran dysgwyr yn ennill tair A* i E a thair A* i D, tra bo'r bwlch wedi aros yr un fath o ran dysgwyr yn ennill tair A* i C, tair A* i B a thair A* i A.

Mae'r gyfradd lwyddo mewn rhaglenni galwedigaethol ychydig yn uwch ar gyfer dysgwyr benywaidd na dysgwyr gwrywaidd yn 2024/25 a hynny o un pwynt canran. Ar ben hynny, nid oedd bwlch benywaidd/gwrywaidd yn y gyfradd gwblhau.

Yn gyffredinol, roedd deilliannau dysgwyr nad ydynt yn uniaethu â hunaniaeth rhywedd ddeuaidd, sef gwryw neu fenyw, yn is, heblaw am gyfraddau cwblhau mewn rhaglenni galwedigaethol.

**Mae gan ddysgwyr gwrywaidd gyfradd lwyddo uwch na dysgwyr benywaidd mewn cyrsiau a wneir fel rhan o raglenni Cyfrif Dysgu Personol**

Ffigur 6.2: Deilliannau cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol yn ôl rhywedd, blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Yn 2024/25, roedd gan gyrsiau a wnaed gan ddysgwyr gwrywaidd a wnaeth raglenni Cyfrif Dysgu Personol gyfradd gwblhau o 97%, a oedd ychydig yn uwch na dysgwyr benywaidd, a oedd â chyfradd gwblhau o 96%.


Data yn Nhabl 5.5 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Roedd 81% o'r cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol wedi eu astudio gan wrywod. Nid yw deilliannau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn uniaethu â hunaniaeth rhywedd ddeuaidd, sef gwryw neu fenyw wedi eu adrodd yma i osgoi datgelu gwybodaeth am bod maint y cohort yn fach.

# Oedran

**Roedd gan ddysgwyr a oedd yn 16 oed ar ddechrau eu Safon Uwch gyfraddau cyflawniad uwch o lawer na dysgwyr hŷn**

Ffigur 7.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl oedran ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf, blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Fe aeth 51% o ddysgwyr Safon UG 17 oed neu drosodd ymlaen i gwblhau eu rhaglen Safon Uwch lawn, o'i gymharu â 79% o ddysgwyr 16 oed. Fe aeth 48% o ddysgwyr Safon UG 16 oed ymlaen i ennill 3 C ar lefel Safon Uwch, o'i gymharu â 24% o ddysgwyr hŷn.

[Nodyn 1] Nid yw rhai categorïau sy'n seiliedig ar niferoedd isel wedi cael eu cynnwys i osgoi datgelu pwy ydynt.

Data yn Nhabl 1.3 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghymru'n dechrau eu Safon Uwch pan ydynt yn 16. Yn 2024/25, dechreuodd 15,140 o ddysgwyr eu cyrsiau Safon UG pan oeddent yn 16 oed o'i gymharu â 1,395 o ddysgwyr a'u dechreuodd pan oeddent yn 17 oed a throsodd. Gall dysgwyr hŷn fod wedi dilyn llwybr addysg llai traddodiadol neu gallant fod yn ailsefyll Safon Uwch.

Ar y cyfan, mae'r bwlch oedran mewn deilliannau ychydig yn is neu wedi aros yr un fath o'i gymharu â 2023/24, ac eithrio'r gyfradd gadael yn gynnar a thair A* i A.

## Amddifadedd

Ceir dau fesur o amddifadedd yn y datganiad hwn. Y cyntaf yw'r amddifadedd yn yr ardal fechan y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn amddifadus yn byw mewn ardaloedd amddifadus ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Daw hyn o brif fynegai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (ar gyfer data 2023/24) a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 (ar gyfer data 2024/25).


Mae'n bwysig nodi y bu rhai newidiadau methodolegol rhwng MALIC 2019 a MALIC 2025, fel a esbonnir gan yr adroddiad ar ganlyniadau MALIC 2025 gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, oherwydd y newid cymharol fach ym MALIC ar lefel gyffredinol, mae'r dadansoddiad yn ôl amddifadedd yn yr adroddiad hwn yn dal i fod yn gymaradwy ar y cyfan rhwng 2023/24 a 2024/25.

Yr ail yw mesur dirprwy o amddifadedd ar lefel dysgwr: pa un a oedd dysgwr yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) ar unrhyw adeg yn ystod yr ysgol uwchradd.

Mae'r adran hon yn cynnwys detholiad o'r dadansoddiad yn seiliedig ar y ddau fesur hyn. Darperir rhagor o fanylder yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r dadansoddiad.

**Roedd gan ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf amddifadus ddeilliannau is**

Ffigur 8.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl amddifadedd cymdogaeth gartref y dysgwr a blwyddyn academaidd, 2023/24 a 2024/25



Disgrifiad: Yn 2024/25, yn y 10% o gymdogaethau mwyaf amddifadus dim ond 67% o ddysgwyr UG aeth ymlaen i gwblhau eu Safon Uwch. Yn y 10% o gymdogaethau lleiaf amddifadus, fe wnaeth 85% o ddysgwyr UG gwblhau eu Safon Uwch. Yn 2023/24, 19 pwynt canran oedd y bwlch, ond mae wedi lleihau i 18 pwynt canran ar gyfer 2024/25.


Data yn Nhabl 1.4 yn y daenlen sy’n cyd-fynd â’r adroddiad

Mae’r rhan fwyaf o’r bwlch yn deillio o ddysgwyr mewn ardaloedd amddifadus na wnaethant barhau i ail flwyddyn Safon Uwch. Dim ond 77% oedd y gyfradd parhau ar gyfer dysgwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus, o’i gymharu ag 90% ar gyfer dysgwyr yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus. Roedd dysgwyr o’r ardaloedd mwyaf amddifadus yn llai tebygol o gwblhau eu Safon UG yn y lle cyntaf hefyd.

Gwelwyd bwlch hefyd rhwng dysgwyr a fu’n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn yr ysgol uwchradd, a’r rhai na fuont erioed yn gymwys.

**Mae cyfraddau llwyddo’n is ar gyfer dysgwyr galwedigaethol sy’n gymwys i gael PYADd**

Ffigur 8.2: Cyfradd llwyddiant mewn rhaglenni galwedigaethol yn ôl pa un a fu’r dysgwr yn gymwys ar unrhyw adeg i gael Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) yn yr ysgol uwchradd, blwyddyn academaidd 2024/25




Disgrifiad: Nid oedd y cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad mewn rhaglenni galwedigaethol mor gryf â rhwng amddifadedd a chyflawniad mewn addysg gyffredinol. Fe wnaeth 80% o ddysgwyr a fu’n gymwys ar unrhyw adeg i gael prydau ysgol am ddim gyflawni eu cymwysterau galwedigaethol, o’i gymharu ag 85% na fuont erioed yn gymwys.


Data yn Nhabl 2.10 yn y daenlen sy’n cyd-fynd â’r adroddiad

Nid oedd modd adnabod statws PYADd 25% o ddysgwyr galwedigaethol mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr nad aethant i ysgol uwchradd yng Nghymru, a dysgwyr a adawodd yr ysgol uwchradd cyn 2010/11, sef y flwyddyn bellaf yn ôl y gellir ei defnyddio wrth baru cofnodion yn y set ddata a ddefnyddir ar gyfer hyn. Roedd bwlch amddifadedd wrth ystyried y mesur o amddifadedd sy’n seiliedig ar ardal hefyd, lle’r oedd llai o rai anhysbys.

# Cefndir ethnig

**Gwelwyd cynnydd ymhlith rhai grwpiau ethnig yn rhai o'r dangosyddion o ran graddau a enillwyd yn 2024/25, tra gwelwyd gostyngiad neu ddeilliannau cymharol sefydlog ymhlith eraill**

Ffigur 9.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl cefndir ethnig a blwyddyn academaidd dysgwr, rhwng 2023/24 a 2024/25




Disgrifiad: Roedd dysgwyr o Grwpiau Ethnig Eraill yn fwy tebygol o ennill o leiaf tri chymhwyster Safon Uwch ac o leiaf tair C. Roedd dysgwyr o Grwpiau Ethnig Lluosog, Cymysg yn fwy tebygol o ennill o leiaf dair A.

Data yn Nhabl 1.8a yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad


Gwelwyd cynnydd ymhlith y Grŵp Ethnig Lluosog, Cymysg a'r Grŵp Ethnig Arall o ran cyfran y dysgwyr a enillodd o leiaf dair E, a hwnnw'n gynnydd o chwe phwynt canran a thri phwynt canran yn y drefn honno o 2023/24.

Fe wnaeth cyfran y dysgwyr a enillodd o leiaf dair C gynyddu ar gyfer pob grŵp ethnig yn 2024/25.

Dysgwyr o'r Grwpiau Ethnig Lluosog, Cymysg oedd yr unig grŵp lle gwelwyd cynnydd yng nghanran y dysgwyr a enillodd o leiaf dair A, a hwnnw'n gynnydd o ddau bwynt canran o'i gymharu â 2023/24.

**Gwelwyd cyfraddau llwyddo uwch ymhlith y mwyafrif o grwpiau ethnig**

Ffigur 9.2: Cyfradd lwyddo mewn addysg alwedigaethol yn ôl cefndir ethnig manwl a blwyddyn academaidd y dysgwr, heb gynnwys Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), 2023/24 i 2024/25



Disgrifiad: Gwelwyd cynnydd ymhlith y rhan fwyaf o grwpiau ethnig o ran cyfraddau llwyddo mewn addysg alwedigaethol yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24, tra gwelwyd gostyngiad neu gyfradd lwyddo gymharol sefydlog ymhlith eraill.

[Nodyn 1] Nid yw rhai categorïau sy'n seiliedig ar niferoedd isel wedi cael eu cynnwys i osgoi datgelu pwy ydynt.

Data yn Nhabl 2.9 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad

Dysgwyr o gefndir Tsieineaidd oedd â'r gyfradd lwyddo uchaf, sef 94%, ar raglenni galwedigaethol yn 2024/25 (heb gynnwys rhaglenni sy'n addysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill). Roedd hwn yn gynnydd o ddeuddeg pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Fe ostyngodd y gyfradd lwyddo ar gyfer dysgwyr o Gefndir Gwyn Anhysbys o 84% yn 2023/24 i 42% yn 2024/25. Mae'r grŵp ethnig Gwyn Anhysbys yn gategori hanesyddol nas defnyddir yn y data mwyach. Gellir priodoli'r gostyngiad i ddysgwyr a adawodd y set ddata gyda'r categori hwn wedi'i gofnodi ar eu cyfer – fe wnaeth y garfan Gwyn Anhysbys mewn addysg alwedigaethol leihau o 3,960 yn 2023/24 i 115 yn 2024/25.

Mae carfannau grwpiau ethnig dysgwyr sydd yn dal i fod yn astudio ar ol 8 wthnos yn amrywio - o 28,515 o ddysgwyr yn y grŵp ethnig 'Gwyn Cymreig / Seisnig / Albanaidd / o Ogledd Iwerddon' i 15 o ddysgwyr yn y grŵp ethnig 'Sipsi, Teithiwr neu Deithiwr Gwyddelig'. I weld y ffigyrau llawn, gweler tabl 2.9 yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r adroddiad.

# Rhestr Termau

## Addysg alwedigaethol

Set o weithgareddau dysgu a gymerir gan ddysgwr gan amcanu at eu paratoi ar gyfer maes gwaith penodol yw addysg alwedigaethol. Mae BTEC yn fath nodweddiadol o gymhwyster galwedigaethol a gymerir fel rhan o raglen alwedigaethol. Yn y datganiad hwn nid yw addysg alwedigaethol yn cwmpasu prentisiaethau na Twf Swyddi Cymru+.

## Addysg gyffredinol

Mae addysg gyffredinol yn cyfeirio at raglen ddysgu sy'n cynnwys cymysgedd o gymwysterau ar draws nifer o feysydd pwnc. Mewn dysgu ôl-16, Safon Uwch yw'r cymwysterau hyn yn aml, ond gall dysgwyr gymryd cymysgedd o gymwysterau galwedigaethol hefyd fel rhan o'u rhaglen addysg gyffredinol.

## Blwyddyn academaidd

Ar gyfer ysgolion, mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ar 1 Medi ac yn gorffen ar 31 Awst. Ar gyfer colegau, mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ar 1 Awst ac yn gorffen ar 31 Gorffennaf.

## Cefndir ethnig

Cyflwynir categorïau ethnig yn ôl Safonau wedi'u cysoni Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth. Y dysgwr ei hun sy'n adrodd am yr wybodaeth.

## Colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion

Yn y datganiad hwn, mae 'colegau' yn golygu sefydliadau addysg bellach, a adwaenir hefyd fel SABau. Mae rhai sefydliadau addysg bellach yn grŵp o nifer o golegau. Mae 'Ysgolion' neu 'Chweched Dosbarth' yn cyfeirio at chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir.

Diffinnir Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant fel coleg. Chweched dosbarth mewn ysgol yw Coleg Cymunedol Y Dderwen.

## Cyfradd gwblhau

Ystyr y gyfradd gwblhau yw cydran y rhaglenni neu weithgareddau a orffennir, pa un a gyflawnwyd y cymwysterau ai peidio. Gweler y ddogfen ansawdd a methodoleg am ragor o wybodaeth.

## Cyfradd llwyddiant

Cyfran y prif gymwysterau a gymerwyd a gafodd eu cyflawni yw'r gyfradd llwyddiant. Gweler y ddogfen ansawdd a methodoleg am ragor o wybodaeth.

## Cymdogaeth gartref

Yr ardal fechan a elwir yn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) sy'n cynnwys cyfeiriad cartref y dysgwr.

## Cyrsiau

Cymwysterau unigol y mae dysgwr yn eu hastudio yw cyrsiau, er enghraifft ffiseg Safon Uwch.

## Gadael yn gynnar

Caiff dysgwyr eu diffinio fel rhai sy'n gadael yn gynnar os ydynt:
- yn diweddu eu rhaglen o fewn 8 wythnos i'w dyddiad dechrau
- a hwythau heb gwblhau'r rhaglen
- a bod gan y rhaglen hyd disgwyliedig o 24 wythnos neu fwy

Nid yw'r rhai sy'n gadael yn gynnar yn cael eu cynnwys yn y mesurau.

## Lefelau cymwysterau

Mae lefelau cymwysterau'n amrywio o lefel mynediad i lefel 8.

Mae cymhwyster lefel 1 yn gyfwerth â D i G mewn TGAU, mae cymhwyster lefel 2 yn gyfwerth ag A* i C mewn TGAU, ac mae cymhwyster lefel 3 yn gyfwerth ag UG neu Safon Uwch.

Mae'r canllaw i ddysgwyr ar y Fframwaith Credydau a Chymwysterau yn cynnwys diagram sy'n amlinellu lefelau'r gwahanol gymwysterau.

## Meysydd pwnc sector

Mae'r meysydd pwnc sector yn seiliedig ar y 15 maes dysgu haen gyntaf a ddosbarthwyd gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual). Gallant gyfeirio at bwnc rhaglen alwedigaethol gyfan, neu gyrsiau unigol.

## Oedran

Cyfrifir oedran dysgwr o'r 31 Awst ar ddechrau eu blwyddyn UG ar gyfer addysg gyffredinol, ac ar ddechrau'r flwyddyn a enwir ar gyfer addysg alwedigaethol.

## Prif gymwysterau

Dylai prif gymwysterau roi cyfrif am o leiaf 50% o'r Oriau Cyswllt Dan Arweiniad ar gyfer rhaglen, gyda 70% yn darged delfrydol. Dylent fod yn gymwysterau a gymeradwyir neu a ddynodir gan Cymwysterau Cymru. Y darparwr ei hun sy'n adrodd a yw cymhwyster yn brif gymhwyster.

## Prydau ysgol am ddim

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael rhai budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu ar gredyd cynhwysol. Dim ond os ydynt wedi cyflwyno cais am brydau ysgol am ddim i'w hawdurdod lleol y cofnodir bod dysgwyr yn gymwys.

Diffinnir dysgwr yn yr adroddiad hwn fel un sydd "wedi bod yn gymwys ar unrhyw adeg am Brydau Ysgol Am Ddim" os bu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod yr ysgol uwchradd yng Nghymru. Os na fu'n gymwys yn ystod unrhyw flwyddyn yn yr ysgol uwchradd yng Nghymru fe'u disgrifir fel dysgwyr 'na fuont erioed yn gymwys i

gael Prydau Ysgol Am Ddim'. Caiff dysgwyr nad oedd modd eu paru â chofnod ysgol uwchradd yng Nghymru eu categoreiddio fel rhai â statws anhysbys.

## Rhaglen

Casgliad o gymwysterau y bydd dysgwr yn eu hastudio yw rhaglen. Er enghraifft, gall rhaglen Safon Uwch gynnwys tri chymhwyster Safon Uwch a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Enghraifft bosibl o raglen alwedigaethol fyddai 'Gwaith Coed a Saernïaeth Lefel 1', sy'n cynnwys astudio 'Diploma mewn Gwaith Coed a Saernïaeth' fel y prif gymhwyster, ynghyd ag unrhyw gymwysterau ategol, megis mathemateg ar lefel cyn TGAU.

## UG, A2 a Safon Uwch

Cymwysterau a wneir dros 2 flynedd fel arfer yw Safon Uwch. Yn nodweddiadol mae dysgwr yn gwneud cymwysterau TAG Uwch Gyfrannol (UG) yn y flwyddyn gyntaf, a gall fynd ymlaen wedyn i wneud y cymhwyster TAG Uwch cyflawn yn yr ail flwyddyn. Cyfeirir weithiau at yr ail flwyddyn hon fel blwyddyn A2.

Bydd rhai dysgwyr yn gwneud cymwysterau Safon Uwch llinol, lle maent yn treulio dwy flynedd yn gweithio tuag at gymhwyster Safon Uwch heb wneud TAG Uwch Gyfrannol.

# Nodiadau

Cyhoeddir tablau ochr yn ochr â’r datganiad hwn a’r rheiny’n cynnwys yr holl ddata a gyflwynir yma, a rhagor o ddata.

### Atal mesurau perfformiad yn 2019/20 a 2021/22

Yn sgîl newidiadau o ran sut yr oedd graddau’n cael eu dyfarnu a’r modd y tarfodd y pandemig ar ddysgu, ni chynhyrchodd Llywodraeth Cymru unrhyw un o’i mesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion na dysgu ôl-16 yn 2019/20 na 2020/21.

Cyfrifwyd ystadegau gan ddefnyddio dulliau newydd i asesu sut yr effeithiwyd ar ddeilliannau dysgwyr yn ystod y pandemig ar gyfer pob math o ddysgu ôl-16. Roedd y rhain yn cynnwys ystadegau newydd ar hyd yr oedi cyn cwblhau dysgu ac ar ddewisiadau dysgwyr Blwyddyn 11 wrth fynd i mewn i ddysgu ôl-16. Adroddwyd arnynt yn yr adroddiadau Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 yr effeithiwyd arnynt gan bandemig y coronafeirws (Covid-19). Ni ddylid cymharu’r ystadegau yn yr adroddiadau ar y pandemig â’r mesurau deilliannau dysgwyr yr adroddir arnynt yn y datganiad hwn.

# Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg

Gweler y ddogfen Ansawdd a Methodoleg: Prentisiaethau sy'n cyd-fynd â'r datganiad hwn am wybodaeth fanwl.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'n Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r safonau a ddisgwylir mewn perthynas â dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus wedi cael eu dangos a'u gwella yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

O'r dechrau mae'r mesurau wedi cael eu datblygu gan ystadegwyr proffesiynol yn ôl Datganiad Cydymffurfio Medr a'n polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau. Caiff dyddiadau rhyddhau eu cyhoeddi ymlaen llaw, a dilynir protocolau ynghylch cyfrinachedd data.

O bryd i'w gilydd, gall diwygiadau ddigwydd oherwydd gwallau yn ein prosesau ystadegol neu pan fo cyflenwr data'n hysbysu Medr eu bod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir. Yn yr achosion hyn, gwneir dyfarniad pa un a yw'r newid yn ddigon arwyddocaol i gyhoeddi datganiad ystadegol diwygiedig. Lle nad ystyrir bod newidiadau'n arwyddocaol, bydd ffigyrau'n cael eu cywiro os ydynt yn ymddangos mewn datganiadau yn y dyfodol.

### Ansawdd

Ceir proses ddilysu ar gyfer data pan fo'n cael ei gasglu. Ceir proses gysoni ychwanegol ar gyfer data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae'r mesurau'n cael eu creu o god trwy fethodoleg sydd wedi cael ei gwella a'i dilysu dros y blynyddoedd. Mae gwiriadau awtomatig yn cael eu cynnwys yn y cod. Pan fo'r mesurau wedi cael eu cynhyrchu, caiff yr adroddiad terfynol ei ysgrifennu a'i wirio gan ystadegwyr.

Bob blwyddyn, mae darparwyr dysgu'n cael adroddiad ar fesurau cyflawniad ar gyfer eu data hwy eu hunain, gan gynnwys gwybodaeth am sut yn union y mae'r mesurau wedi cael eu cyfrifo a chan amlygu materion posibl gydag ansawdd y data. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr amlygu materion a'u codi.

Mae nodiadau eglurhaol yn cael eu hanfon at yr holl ddarparwyr ym mhob blwyddyn academaidd a'r rheiny'n rhoi canllawiau ynghylch sut y caiff y mesurau eu creu ac yn egluro unrhyw newidiadau i'r fethodoleg yn y flwyddyn honno.

Yn 2021/22, cafodd colegau'r cod a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r mesurau, gan roi'r cyfle iddynt rannu sylwadau beirniadol ar y fethodoleg yn uniongyrchol. Rydym yn bwriadu ehangu hyn i gyhoeddi'r cod yn gyhoeddus yn y dyfodol.

Mae’r prosesau hyn a gwaith arall wedi arwain at y gwelliannau canlynol mewn ansawdd:

- Mae’r canllawiau casglu data a’r rheolau dilysu sy’n cyd-fynd â’r casgliad data wedi cael eu gwella, gan arwain at ddata o ansawdd gwell.
- Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i’r casgliadau data ar gyfer y chweched dosbarth mewn ysgolion a cholegau i gysoni eu canlyniadau ymhellach.
- Cafodd y materion trin casgliadau data mewn perthynas â hen gymwysterau Bagloriaeth Cymru eu cryfhau, gan gynnwys proses gysoni, a system ar gyfer ymdrin yn well â chofnodion anghyflawn.
- Datblygwyd dull ar gyfer cymwysterau â mwy nag un maes llafur, lle gall dysgwr ennill cymwysterau lluosog mewn un cod dysgu (er enghraifft mewn TAG Celf a Dylunio).
- Rhoddwyd system ar waith i wirio bod y radd yr adroddir arni fel yr un a enillwyd gan ddysgwr yn cyfateb i’r deilliannau graddau sy’n bosibl ar gyfer y cymhwyster.
- Crëwyd dull i dynnu trosglwyddiadau rhwng rhaglenni o’r mesurau, os a dim ond os gellid adnabod bod y dysgwr wedi symud i raglen ddilys.

## Gwerth

Datblygwyd y mesurau gyda chymorth grŵp technegol rheolaidd gyda chynrychiolwyr o golegau, chweched dosbarth, awdurdodau lleol ac Estyn. Mae eu hadborth wedi arwain at newidiadau i’r fethodoleg, ac at ehangu’r mesurau i gwmpasu mwy o agweddau ar ddysgu ôl-16.

Fe gynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar Fesurau Perfformiad Cyson ar gyfer dysgu Ôl-16 yn 2017 i bobl roi eu mewnbwn ynghylch egwyddorion a manylion y mesurau.

Fe wnaed y newidiadau canlynol i wella gwerth yr ystadegau ers cyhoeddi’r mesurau gyntaf yn 2018:

- Fe ailwampiwyd y mesurau cyrsiau Safon Uwch i fod yn fesurau dwy flynedd gyda gwybodaeth am gwblhau a pharhau.
- Fe grëwyd mesurau ar gyfer cyrsiau heblaw Safon Uwch, sy’n rhoi cyfrif am yr amrywiaeth o strwythurau graddau sy’n bosibl.
- Cafodd y mesurau rhaglenni galwedigaethol eu hehangu i gynnwys dysgu yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.
- Mae data demograffig ychwanegol wedi cael ei ychwanegu mewn perthynas â rhywedd/y rhywiau, cefndir ethnig, yr awdurdod lleol cartref, amddifadedd y gymdogaeth gartref, statws cymhwystra i gael PYADd a darpariaeth AAA/ADY yn yr ysgol uwchradd, a gwybodaeth am ddysgwyr â namau mewn data sy’n ymwneud â cholegau.
- Mae deilliannau graddau Safon Uwch wedi cael eu hehangu i’r ystod lawn (A* i E) yn lle A, C ac E yn unig.

## Ystadegau cysylltiedig

Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyflawniad, Awst 2023 – Gorffennaf 2024, sef rhifyn blaenorol y datganiad hwn a gyhoeddwyd gan Medr. Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

Mae Canlyniadau arholiadau: Medi 2024 i Awst 2025, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn adrodd ar ganlyniadau arholiadau Safon Uwch ar gyfer ysgolion ar sail cofrestriadau arholiadau.

Mae'r Cyd-Gyngor Cymwysterau'n cyhoeddi canlyniadau Safon Uwch ac UG ar sail arholiadau a safwyd.

Mae'r gyfres Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr) yn rhan o'r gyfres o fesurau perfformiad cyson, y mae'r datganiad hwn hefyd yn rhan ohoni.

Cyhoeddwyd Addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol: Awst 2023 i Orffennaf 2024 gan Medr ar 26 Chwefror 2026.

Cyhoeddwyd Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau, Awst 2023 i Orffennaf 2024 gan Medr ar 12 Mawrth 2025. Bydd data ar gyfer Awst 2024 i Orffennaf 2025 yn cael ei gyhoeddi ar 18 Mawrth 2026.

Cyhoeddwyd Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025 gan Medr ar 25 Chwefror 2025. Bydd data ar gyfer Awst 2023 i Tachwedd 2025 yn cael ei gyhoeddi ar 26 Mawrth 2026.

## Diweddariad nesaf

Dyddiad: Mis Chwefror neu fis Mawrth 2027.

Cyfnod a gwmpesir: Awst 2025 i Orffennaf 2026.

Efallai na fydd y diweddariad nesaf i'r ystadegau hyn ar yr un ffurf â'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir cyfeirio adborth, cwestiynau a cheisiadau am ragor o ddata trwy'r e-bost i ystadegau@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**